



Living & Learning  
Dysgu i Dyfu

# A Church for the Future Eglwys i'r Dyfodol



ATHROFA PADARN SANT  
ST PADARN'S INSTITUTE



Dyluniwyd y cwrs newydd hwn, 'Dysgu i Dyfu' i alluogi grwpiau o Gristnogion i ddod at ei gilydd mewn cymunedau dysgu i archwilio eu ffydd a dyfnhau eu bywyd o weddi a gwasanaeth.

Ychydig flynyddoedd yn ôl, comisiynodd yr Eglwys yng Nghymru arolwg o'i bywyd a'i gwaith. Fe ddeilliodd o gyfarfod o'r Corff Llywodraethol yn 2010 a gydnabu na '... all yr Eglwys yng Nghymru barhau i wneud yr un pethau yn yr un ffordd; mae angen i rai pethau newid ac rydym yn agored i'r posibilrwydd hwn, ac yn wir yn ei annog'. Cyhoeddwyd yr arolygiad dilynol yng Ngorffennaf 2012.

Gosodwyd y sylfeini diwynddol a oedd yn sail i'r arolygiad ar dudalen 42 o'r adroddiad.

'Yr Eglwys yw Corff Crist'. Ystyr hyn yw ei bod wedi'i galw i fod

- Yn sianel o ras Duw, o adnewyddiad a gofal bugeiliol i'r unigolyn a elwir i ffydd a llawnder bywyd yn Iesu Grist.
- Yn ffynhonnell cyfeillach a chymuned yn ein cymdeithas, fel mae'r Eglwys yn galw pobl i mewn i berthynas a adnewyddwyd â'i gilydd.
- Yn asiant newid yn y byd, fel mae'r Eglwys yn cael ei galw i fod yn agored i arweiniad yr Ysbryd Glân ac i ddwyn tystio laeth i'r cyfiawnder a'r heddwch sydd yn nod amgen Teyrnas Dduw.

Aeth yr Arolygiad ati i holi a oedd yr Eglwys yng Nghymru yn 'addas i'r diben' ac yn gallu ymateb i'r 'alwedigaeth' hon. Ymchwilodd yr arolygiad i faterion strwythur, adnoddau ac arweiniad a gwnaeth bum deg o argymhellion.

Wrth wraidd yr adroddiad roedd yr agymhelliad y dylai pob esgobaeth greu 'Ardaloedd Gweinidogaeth' o ddeoniaethau sydd eisoes yn bod a/neu gasgliadau o blwyfi. Dylai'r Ardaloedd Gweinidogaeth hyn gael eu gwasanaethu gan Dimoedd Gweinidogaeth gydag Arweinydd Ardal Gweinidogaeth dynodedig.

Mae'r Arolygiad hefyd yn adlewyrchu cyfres o werthoedd a disgwyliadau sydd gyda'i gilydd yn dynodi'r Eglwys yng Nghymru yn eglwys sydd yn dysgu. Mae'r gyfryw eglwys yn cael ei galw i weithio ar y cyd ag eraill, i fod yn fyfyrion, a thrawsnewidiol. Eglwys ydy hi sy'n cydnabod fod pawb yn cael eu galw i fod yn ddisgyblion gydol oes i Iesu Grist, gan fyw ein bedydd, dysgu ffyrdd Crist a bod yn dystion i genhadaeth Duw yn y byd. Ac mae hi'n cael ei galw hefyd i fod yn eglwys lle gelwir disgyblion i fynegi eu galwedigaeth fel aelodau'r Eglwys, gan weinidogaethu i'w gilydd ac i'r byd yn enw Crist.

Ac mae hi'n Eglwys lle mae cymunedau ac unigolion Cristnogol yn cael eu galw i ddysgu gydol oes, gan rannau â'i gilydd yn y chwiliad am wirionedd Duw, a geir yn yr ysgrythurau, yn nhraddodiadau'r Eglwys ac yn y profiad cyffredin a rannwn fel disgyblion Crist yng Nghymru'r unfed ganrif ar hugain.

Dyluniwyd y cwrs hwn i helpu a galluogi unigolion a grwpiau o Gristnogion i helpu'r Eglwys i droi yn gymuned sy'n dysgu drwy ymgymryd ag astudio ac ymroi i ddilyn Crist i ble bynnag y mae Ef am arwain.

O ddechrau cyntaf un ei bywyd mae'r Eglwys Gristnogol wedi deall mai pobl ar bererindod yw hi. Roedd y cenhadon cyntaf a sefydlodd y cymunedau Cristnogol cyntaf ymhlith pobl Cymru a ymroes i siwrnai lle'r arweiniwyd hwy gan yr Ysbryd. Heddiw, mae'r Eglwys yng Nghymru yn cael ei galw eto i wneud siwrnai gyda Christ i ddarganfod beth mae'n ein galw ni i gyd i fod ac i'w wneud yn y blynyddoedd o'n blaenau.

Mae'r cwrs hwn yn ddrych i werthoedd eglwys sy'n dysgu. Mae unigolion yn cael eu galw i weithio gydag eraill mewn grwpiau, ac wrth wneud i greu cymunedau sy'n dysgu, a ddyluniwyd i helpu a chefnogi ei gilydd. Gwaith ar y cyd ydyw. Does dim darlithwyr, dim ond y rhai hynny sydd wedi eu dynodi i hwyluso dysgu gan



This new course, 'Living and Learning' is designed to enable groups of Christians to come together in learning communities to explore their faith and to deepen their life of prayer and service.

A few years ago the Church in Wales commissioned a review of its life and work. It stemmed from a meeting of the Governing Body in 2010 which recognised that 'The Church in Wales cannot go on doing the same things in the same way; some things need to change and we are open to, and indeed encourage, that responsibility'. The ensuing review was published in July 2012.

The theological foundations that underpinned the work of the review are stated on page 42 of the report.

'The Church is the Body of Christ'. This means that it is called to be

- A channel of God's grace, renewal and pastoral concern for the individual who is called to faith and fullness of life in Jesus Christ.
- A source of fellowship and community in our society, as the Church calls people into renewed relationships with one another.
- An agent of change in the world, as the Church is called to be open to the leading of the Holy Spirit and to bear witness to the justice and peace which are the marks of God's Kingdom".

The Review set out to inquire whether the Church in Wales was 'fit for purpose' and able to respond to this 'vocation'. The review investigated issues of structure, resources and leadership and made fifty recommendations.

At the heart of the report was the recommendation that each diocese should create 'Ministry Areas' from existing deaneries and/or collections of parishes. These Ministry Areas should be served by Ministry Teams with a designated Ministry Area leader.

The Review also reflects a series of values and expectations which together designate the Church in Wales as a learning church. Such a church is called to be collaborative, reflective and transformational. It is a church that recognises that all are called to be lifelong disciples of Jesus Christ, living out our baptism, learning the ways of Christ and witnessing to God's mission in the world. And it is also called to be a church where disciples are called to express their vocation as members of the Church, ministering to each other and to the world in Christ's name.

And it is a Church where Christian communities and individuals are called to lifelong learning, sharing together in the search for God's truth, found in the scriptures, the traditions of the church and the common experience we share as Christ's disciples in twenty first century Wales.

This course is designed to help and enable both individuals and groups of Christians to help the church become a learning community by engaging in study and committing themselves to follow Christ where he would lead.

From the very beginning of its life the Christian Church has understood itself to be a pilgrim people. The first missionaries who founded the first Christian communities among the people of Wales committed themselves to journey where the Spirit led them. Today, the Church in Wales is called again to journey together with Christ to discover what he is calling us all to be and to do in the years ahead.

This course mirrors the values of a learning church. Individuals are called to work with others in groups, thereby creating learning communities which are designed to help and support each other. The work is collaborative. There are no lecturers, only those designated to facilitate the learning of others. All learning is



eraill. Mae'r dysgu i gyd wedi'i ddylunio i fod yn fyfyrion a gweddigar fel y gall drawsnewid y ffordd mae unigolion a grwpiau yn deall eu ffydd ac yn ymateb i Iesu Grist.

Ym mhob cwrs mae chwe sesiwn. Bydd anegon i unigolion ddarllen y cyflwyniad i'r sesiynau cyn mynd i'r sesiwn grŵp a chymryd rhan lawn yng ngwaith y grŵp. Does dim asesiadau ysgrifenedig, ond fe anogir pawb i gadw 'Dyddlyfr Myfyriol' (boed nodiadau byr neu rywbeth mwy estynedig) o'u profiad ac o'r hyn a ddysgant ar y cwrs.



designed to be reflective and prayerful so that it can help to transform the way that individuals and groups understand their faith and respond to Jesus Christ.

Each course has six sessions. Individuals need to read the introduction to the sessions before attending the group session and to take a full part in the work of the group. There are no written assessments, but everyone is encouraged to keep a 'Reflective Journal' (whether some jottings or something more extensive) of their experience and learning on the course.



# Bod yn Bobl ar Bererindod

## Cyn y Sesiwn

1. Darllenwch y Cyflwyniad
2. Myfyriwch ar stori eich ffydd eich hun

Ceisiwch nodi adegau yn eich bywyd pan ddaethoch yn ymwybodol, neu yr oeddech yn ymwybodol yn ddiweddarach, fod eich ffydd yn ymgryfhau neu yn newid. Os yw'n bosib, ceisiwch nodi adegau o wahanol gyfnodau yn eich bywyd

Ystyriwch bob digwyddiad neu gyfnod yn ei dro a gwnewch nodiadau i chi eich hun gan ofyn:

- i) Beth ddigwyddodd?
- ii) Faint oedd eich oed chi?
- iii) Beth arall oedd yn mynd ymlaen yn eich bywyd?
- iv) Beth oedd yn mynd ymlaen yn y byd?
- v) Pwy oedd y bobl allweddol y pryd hynny?
- vi) Sut roeddech chi'n deall neu'n dehongli eich profiad bryd hynny?
- vii) O edrych arno rwan, ydych chi'n ei weld yn wahanol?



# Being a Pilgrim People

## Before the Session

1. Read the Introduction
2. Reflect on your own faith story

Identify times in your life when you became aware, or were aware later, that your faith grew or changed. If possible, try to identify times from different stages of your life

Consider each incident or period in turn and make notes for yourself asking:

- i) What happened?
- ii) How old were you?
- iii) What else was going on in your life?
- iv) What was going on in the world?
- v) Who were the key people at that time?
- vi) How did you understand or interpret your experience at the time?
- vii) Do you reflect differently on it now?



Y Mae'r Eglwys yn cael ei galw i fod yn bobl ar bererindod, wedi'i chomisiynu trwy fedydd i siwrnai i mewn i Grist ac i ddilyn i ble mae Ef am arwain. Taith gymunedol ydy hi a gyfleir yn eithaf da yn y llinellau hyn o emyn modern adnabyddus, 'Brother, sister let me serve you',

“ *Pererinion ym ar siwrnai, cyd-ymdeithwyr ar y daith, Yma ym i helpu'n gilydd, teithio'r milltir, rhannu'r baich.* ”

Ac wrth i ni 'deithio 'r milltir, rhannu'r llwyth' rydym yn recordio ein profiadau mor aml trwy adrodd straeon. Mae'r storïau hyn yn bwysig am eu bod yn ein cynorthwyo i wneud synnwyr o'r profiadau a gawn.

Ac rydyn ni i gyd yn wahanol. Mae rhai yn dod â phofiad sylweddol gya nhw o fod yn aelodau o'r Eglwys ac wedi cael eu harwain i fynegi sut mae bod yn ddisgyblion a sut beth yw eu gweinidogaeth mewn nifer o wahanol leoliadau mewn nifer o wahanol ffyrdd. Bydd eraill yn gymharol newydd i'r Eglwys ond maen nhw'n ateb galwad i archwilio sut y gallai ein tystiolaeth Gristionogol ddatblygu yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. Bydd llawer wedi bod yn aelodau o'r Eglwys yng Nghymru ers amser hir ac fe fyddant wedi eu magu yn ei hawyrgylch arbennig, ond bydd eraill wedi ymuno â'r Eglwys yn ddiweddar o brofiad o draddodiad Cristionogol arall.

Beth bynnag yw eich profiad o eglwys a gweinidogaeth, bydd gan bob person stori unigryw i'w hadrodd a rheswm pam maen nhw wedi ymgymryd â'r cyfnod hwn o archwilio ac astudio. Am fod straeon yn ffordd bwysig y gallwn ni, fel bodau dynol, wneud synnwyr o'n bywydau, pan fyddwn yn dweud straeon am ein bywydau, rydyn ni'n rhannu gydag eraill ein ffyrdd o'n deall ein hunain, ein byd a'n Duw. Mae'n anochel fod yn y rhain werthoedd, credoau, agweddau ac agendâu wedi'u gwreiddio'n ddwfn, sydd yn llywio ein hymddygiad.

Byddwch yn darganfod y bydd rhannu cyfnodau o stori eich bywyd gydag aelodau eraill o'r grŵp yn ffurfio ffynhonnell gyfoethog o fyfyrion a gweddi. 'Tir sanctaidd' ydy stori pob unigolyn oherwydd mae dweud straeon amdanon ni ein hunain ac am ein taith unigryw ni yn ffordd o adnabod presenoldeb Duw gyda ni ac ewyllys Duw ar ein cyfer. Rydyn ni i gyd yn unigryw. Mae Duw wedi ein galw i gyd wrth ein henwau ac mae gan Dduw ddyfodol arbennig i bob un ohonon ni. Wrth i chi ddod i fyfyrion ar stori eich ffydd eich hun, darllenwch y stori isod.

**Siwrnai Fy Ffydd** gan blwyfolyn yn yr Eglwys yng Nghymru

Ydych chi eisiau dod ar fy nhaith? Dewch ymlaen! Pawb yn eistedd yn gyffyrddus, mi gychwynnaf 'te. Mi ges i fy magu yn Wrecsam ac es i i fyw efo fy rhieni i Fangor is y Coed. Ces i fy medyddio yn yr Eglwys leol a des i'n aelod go iawn o deulu Duw. Buon ni'n addoli yno am tua wyth mlynedd.

Fy atgofion cynharaf ydy teimlo fy mod i'n ferch fach arbennig, gan fod fy Ficer, y pryd hynny, bob tro y rhoi Bara anghysegredig i mi wrth reilen y Cymun (mae'n debyg mai fi oedd yr unig blentyn). Ymhlith yr atgofion eraill roedd ffeiriau dyddiau haf gwirioneddol gynnes wedi'u cynnal yn y Ficerdy, pabell fy rhieni yn cael ei benthg iddyn nhw ac i nifer o ddigwyddiadau eraill oedd yn cael eu cynnal hefyd. Un noson, ces i'r syniad y byddwn i'n ferch fawr, mi es i i oedfa'r hwyr ar fy mhen fy hun. Roeddwn i'n ifanc iawn ac, yn ddiarwybod i mi, mi ges i fy nilyn gan fy nhad yr holl ffordd yno. Unwaith fy mod i wedi cyrraedd yn saff, rhoddodd gwraig y Ficer lond bag o fferins i mi. (Sut roedd hi'n gwybod tybed?)

Pan oeddwn i'n wyth mlwydd oed mi aethon ni i fyw i Holt. Es i i'r ysgolion Cymraeg, Ysgol Bodhyfryd ac Ysgol Morgan Llwyd. Bryd hynny roedden ni'n addoli yn Eglwys Holt. Doeddwn i ddim yn adnabod y plant



The church is called to be a pilgrim people, commissioned through baptism to journey into Christ and to follow where he would lead. It is a communal journey that is captured rather well in lines from the well-known modern hymn, 'Brother, sister let me serve you',

“ *We are pilgrims on a journey, fellow travellers on the road, We are here to help each other walk the mile and share the load.* ”

And as we 'walk the mile and share the load' we record our experiences so often through telling stories. These stories are important because they help us to make sense of the experiences that we have.

And we are all different. Some bring considerable experience of church membership and have been led to express their discipleship and ministry in a number of different settings in a number of different ways. Others may be relatively new to the Church but are answering a call to explore how our Christian witness may develop in the months and years ahead. Many will have been members of the Church in Wales for a long time and will have grown up in its particular atmosphere while others may have recently joined the Church from an experience of another Christian tradition.

Whatever your experience of church and ministry every person will have a unique story to tell and a reason why they have undertaken this period of exploration and study. Because stories are an important way in which we, as human beings, make sense of our lives, when we tell stories about our lives we are sharing with others the ways that we understand ourselves, our world and our God. These inevitably contain the deep-seated values, beliefs, attitudes and agendas that guide our behaviour.

You will find that sharing parts of your life story with other members of the group will provide a rich source of reflection and prayer. The story of each individual is 'holy ground' because telling stories about ourselves and our own unique journey is a way of identifying God's presence with us and God's will for us. We are all unique. God has called us all by name and God has a special future for each one of us. As you come to reflect on your own faith story, read the story below.

**My Journey of Faith** by a Church in Wales parishioner

Do you want to come on my voyage? Hop aboard! Everyone sitting comfortably, then I'll begin. I was born in Wrexham and went to live with my parents in Bangor-On-Dee. I was baptised at the local Church and became a true member of God's family. We worshipped there for approximately eight years.

My earliest memories are, of feeling a special little girl as my Vicar, at that time, always gavemeunconsecrated Bread at the Communion rail. (I was probably the only youngster). Other memories were truly warm summer day fetes, held at the Vicarage, my parents' tent, being lent to them and various other events taking place. One evening, I thought that I would be a big girl, I went along to the evening service on my own. I was very young and, unbeknown to me, my father followed me all the way there. Once I arrived safely, the Vicar's wife gave me a bag full of sweets. (How did she know, I wonder?)

When I was eight years old we moved to Holt. I went to the Welsh schools Ysgol Bodhyfryd and Morgan Llwyd. We then worshipped at Holt Church. I didn't know the other children very well and I became known as the "posh" girl who had to go in at 4.30p.m for piano practice and also "she goes to Church"! I became a member of the Church Choir (which annoyed my friends, as I had to go to practice). I spent many cherished moments telling my friends Bible stories, sitting on the park swing. One girlfriend loved the Creation story and wanted me to repeat it several times.





eraill yn dda iawn a chyn hir mi ges i fy adnabod fel y "ferch grand" oedd yn gorfod mynd i mewn am 4.30p.m i ymarfer y piano a hefyd "mae hi'n mynd i'r Eglwys"! Mi ddes i'n aelod o gôr yr Eglwys (oedd yn cythruddo fy ffrindiau, gan fod rhaid imi fynd i ymarferion). Treuliais lawer o eiliadau annwyl yn dweud storïau o'r Beibl wth fy ffrindiau, wrth eistedd ar y siglen yn y parc. Roedd un ferch wrth ei bodd efo stori'r Creu ac roedd hi eisiau i mi ei hailadrodd hi nifer o weithiau.

Mi gawson ni lawer o hwyl yng ngwersylloedd haf yr Eglwys a gynhelid yng Nghanolfan Gymunedol Is-Y-Coed. Rydw i'n cofio eu bod wedi gofyn i mi ddweud y 'Gras' cyn inni gael pryd o fwyd yn y gweryll, ac am imi fynychu ysgol Gymraeg, wyddwn i ddim gweddïau Saesneg, roeddwn i'n poeni cymaint, nes i mi ddysgu "For what we are about to receive, may the Lord make us truly thankful".

Roeddwn i eisiau cadarnhau fy Ffydd ac mi dderbyniais fedydd esgob yn Eglwys St. Mathew, (Dyna pam mai Matthew ydy enw fy mab ieuengaf).

Rydw i'n disgrifio siwrnai fy Ffydd fel ysgol, ac fel mae fy mywyd yn mynd yn ei flaen, rydw i'n gobeithio cymryd cam neu ddau arall. Yn ystod blynyddoedd fy ardegau a phan oeddwn i'n oedolyn ifanc mi gymerais ran mewn tipyn o weithgareddau h.y. cynhyrchiad o 'Joseph and his Technicolor Dreamcoat', Gwersyll Ieuenctid, Y Corff Llywodraethol a sawl gweithdy.

Dechreuais addoli yn Eglwys St. Thomas. Ymunais â'r Côr. Mi ganon ni yn yr Eglwys Gadeiriol ac mi berfformion ni amryw o berfformiadau, bob un yn canmol Duw ac yn diolch iddo am bob dim y mae Ef wedi'i wneud drosom ni.

Yn ystod blynyddoedd olaf fy ardegau, mi es i ar bererindod gan ymweld â Gwlad yr Addewid. Mae'n sicr i fy Ffydd ymgryfhau ac mi ddaeth hi'n haws deall yr holl straeon o'r Beibl roeddwn i wedi'u clywed. Wrth groesi Môr Galilea mewn cwch diffoddwyd yr injan ac adroddodd pawb Salm 121

“ *Codaf fy llygaid tua'r mynyddoedd; o ble y daw cymorth i mi? Daw fy nghymorth oddi wth yr Arglwydd, creawdwr nefoedd a daear.* ”

Roedd hwn yn brofiad anhygoel, gan y buasai Crist ei hun wedi gwneud yr union daith honno nifer o weithiau ac wedi edrych i fyny at y brynau hynny. Hyd y dydd hwn, dyma fy hoff salm ac rydw i'n cael fy atgoffa mai nerth Duw sydd wedi fy ngalluogi i wneud pob peth.

Pan oeddwn i yn fy ugeiniau hwyr, yn briod ac yn feichiog gyda fy mab cyntaf, cafwyd bod gen i diwmor ar fy ymennydd ac roedd y cyfnod hwn yn fy mywyd yn anodd iawn. Newidiodd fy mywyd yn llwyr gan fod rhaid i mi o hynny allan ymdopi fel mam ifanc anabl. Trwy gydol yr amser yma, llenwodd Salm 121 fy nghalon a'm meddwl, a chyda chymorth fy Arglwydd, fy nheulu a'm ffrindiau, roeddwn i'n gallu dod o hyd i nerth yn ystod yr amser tywyll hwnnw.

Yn ddiweddarach, cefais fy annog i fynd ar gwrs Alfa yn fy eglwys leol. Unwaith eto, roeddwn i'n gallu symud ymlaen i ris arall ar fy ysgol. Dyfnhaodd fy mherthynas â Duw yn fwy ac o ganlyniad, mynychais Grŵp yn y Cartref. Mi astudion ni lyfrau a thrafod llawer o wahanol faterion, ynghyd â'r gyfeillach a'r gefnogaeth gan fy ffrindiau oedd yn gyd-Gristnogion.

Gofynnodd ffrind agos i mi a hoffwn i fynd i benwythnos Cursillo, a'm galluogodd, fel y gwyddoch chi i gyd, i godi i ris arall ar fy ysgol. Dyfnhaodd fy mherthynas â Duw yn bellach fyth. Roedd fy mywyd fel Cristion yn gallu llewyrchu'n fwy wrth imi fynd i fy niwrnodau Ultreya lleol.



We had a lot of fun at Church summer camps held at Is-Y-Coed Community Centre. I remembered being asked to say 'Grace' before a meal at camp, and as I attended a Welsh school, I didn't know any English Prayers, I was so worried, until I learnt "For what we are about to receive, may the Lord make us truly thankful".

I wanted to confirm my faith and I was confirmed at St. Matthew's Church, (That's why my youngest son is called Matthew).

I describe my journey of faith as a ladder, and as my life goes on, I hope to take another step or two. During my teenage and young adult years I participated in quite a few activities i.e. a production of 'Joseph and his Technicolor Dreamcoat', Youth Camp, The Governing Body and various workshops.

I started to Worship at St. Thomas'. I joined the Choir. We sang at the Cathedral and we performed various performances, all praising God and thanking Him for all He has done for us.

During the latter part of my teenage years, I went on a pilgrimage visiting the Holy Land. My faith certainly became stronger and all the Bible stories that I'd heard became more understandable. While boating across the sea of Galilee the engine was turned off, and everybody recited Psalm 121

“ *I lift up mine eyes unto the hills where does my help come from? My help comes from the Lord, the Maker of heaven and earth.* ”

This was an amazing experience, as Christ himself would have made that same journey many times and looked up at those hills. To this day, this is my favourite psalm and I am reminded that it is God's strength that has enabled me to do all things.

When in my late-twenties, married and pregnant with my first son, a brain tumour was diagnosed and this period of time was very difficult. My life completely changed as I now had to cope as a young disabled mother. Throughout this time, Psalm 121 filled my heart and my mind and with the help of my Lord, my family and friends, I was able to find strength during this dark time.

Later, I was encouraged to attend an Alpha course at my local church. Again I was able to advance to another rung on my ladder. My relationship with God deepened further and as a result, I attended a Home Group. We studied books and discussed many different issues, along with the fellowship and encouragement from my fellow Christian friends.

A close friend asked me to attend a Cursillo weekend, which as you all will know enabled me to rise to another rung on my ladder. My relationship further deepening with God. Attending my local Ultreya's enabling my Christian life to flourish further.

After having surgery I was unable to do many things, and life was a struggle. My strong faith carried me through some pretty grim times and I was frequently reminded and pulled short when times got tough. Having a young family and not being able to drive, as I once could, was difficult.

One day, I was inspired to enquire about driving again. After many tests, confidence building lessons, and being accepted on the 'Motorbility' scheme I was blessed with driving and possessing my own car. Since 2006, my life has dramatically changed. I'm now a taxi for my two sons! Through every stage of my applications I asked God if this was His will. Now, I'm able to help others and drive other people who need help with transport.



Ar ôl cael llawdriniaeth roedd yna lawer o bethau nad oeddwn i'n gallu eu gwneud, ac roedd bywyd yn frwydr i mi. Cariodd fy ffydd gref i drwy amseroedd eithaf llym ac mi ges i fy atgoffa yn aml a'n tynnu yn fyr o'm targed pan aeth hi'n anodd. Roedd cael teulu ifanc a methu gyrru, fel roeddwn i'n gallu unwaith, yn anodd.

Un diwrnod, cefais fy ysbrydoli i holi ynghylch gyrru eto. Ar ôl sawl prawf, gwersi magu hyder, a chael fy nerbyn ar y cynllun 'Motorbility' fe'm bendithiwyd â gyrru a meddu ar fy nghar fy hun. Ers 2006 mae fy mywyd wedi newid yn ddramatig. Tacsî ydw i bellach i'm dau fab! Trwy bob cam o'm ceisiadau gofynnais i Dduw ai hyn oedd Ei ewyllys Ef. Heddiw, rydw i'n gallu helpu pobl eraill a gyrru pobl eraill sydd angen help efo chlodiant.

Does dim modd datrys pob un o broblemau ein bywyd, ond rywsut, mae Duw ynghanol pob agwedd o fywyd. Mae pethau yn wahanol rwan.

Mae'n bosibl fod rhai amgylchiadau yn ein tynnu oddi wrth Dduw neu yn nes at Dduw. Gallwn yn rhwydd fod wedi troi i ffwrdd oddi wrth Dduw yn ystod fy salwch ond ymddiriedais yn Nuw ac mae fy ffydd mor gryf ag erioed. Rhoes Duw nerth i mi newid fy nghalon a rhoddodd i mi'r dewrder i roi fy mywyd cyfan i Dduw. Mae'r stori yn y Beibl am y crochenydd yn awgrymu fod Duw yn ein mowldio, fel yr ewyllysia i ni fod.

Mae fy Ffydd yn bwysig iawn i mi ac wrth i mi ddarllen fy Meibl, rydw i'n diolch i Dduw am yr holl bobl ddewr sydd wedi cymryd camau pwysig i gyhoeddi Newyddion Da Iesu Grist, ac rydw i'n diolch iddo Ef am y bendithion lu a roddodd Ef i mi ac rydw i'n hyderus Ei fod wastad yno i mi.



All our life problems cannot be solved, but somehow God is in the mist of every aspect of life. Things are different now.

Some circumstances may draw us away from God or closer to God. I could easily have turned away from God during my illness but I trusted God and my faith is as strong as ever. God gave me the strength to change my heart and gave me the courage to give my all to God. The Bible story of the potter suggests that God moulds us, as he wills us to be.

My Faith is very important to me and as I read my Bible, I thank God for all the brave people who have taken important steps to proclaim the Good News of Jesus Christ and I thank Him for the many Blessings he has given me and I am confident He is always there for me.



## Cyrraedd Ac Addoli

1. Gadewch i bob person ei gyflwyno / chyflwyno ei hun yn gryno.
2. Bydd arweinydd y grŵp yn arwain y grŵp mewn addoliad.

## Prosiect 1

### Fel unigolion

1. Cymerwch funud neu ddau i feddwl am eich stori fel rydych chi wedi'i pharatoi. Dewiswch un person, un digwyddiad ac un eglwys sydd wedi bod yn bwysig neu yn arwyddocaol i chi.
2. Dywedwch wrth eich gilydd am y rhain.
  - Dylai pob person gael y cyfle i siarad heb ymyrraeth, a phan fyddan nhw wedi gorffen, ceir gofyn cwestiynau fel y bo'n briodol.
  - Gwrandewch yn ofalus a cheisiwch osgoi gwneud cymariaethau na barnu.

### Yn ddeuoedd dri drioedd

1. Siaradwch am sut roedd adrodd eich stori yn teimlo.
2. Darganfyddwch gyda'ch gilydd y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng eich storïau.



## Arrive and Worship

1. Allow each person to briefly introduce themselves.
2. The group leader will lead the group in worship.

## Project 1

### As individuals

1. Take a few minutes to think about your story as you have prepared it. Select one person, one event and one church that have been important or significant to you.
2. Tell each other about these.
  - Each person should have the chance to speak without interruption, and when they have finished, questions may be asked as appropriate.
  - Listen carefully and try to avoid making comparisons or judgements.

### In twos or threes

1. Talk about how it felt to tell your story.
2. Discover together the similarities and differences between your stories.



## Prosiect 2



### Fel grŵp

1. Ystyriwch y gosodiadau a ganlyn am grwpiau:  
Mae grŵp â'r potensial i fod yn fwy galluog, mwy creadigol, mwy arloesol, mwy effeithiol ac â gwell gwybodaeth na'r unigolyn gorau ynddo  
Mae gwranddo ar eich gilydd, parchu barn eich gilydd a chymryd amser i ddeall yn bwysicach na bod pawb yn cytuno â'i gilydd  
Mae gan bawb gyfraniad i'w wneud i fywyd y grŵp ac i ddatblygiad posibiliadau gweithgareddau a thargedau newydd.

2. Rhowch eich barn ar bob gosodiad yn ei dro.

Crëwch eich rhestr eich hun o osodiadau am grwpiau a all ffurfio'r 'rheolau sylfaenol' i'ch gwaith gyda'ch gilydd. Gallwch ddefnyddio unrhyw neu'r cwbl o'r gosodiadau uchod neu greu eich rhai eich hun yn unol â hynny.

## Myfyrdod

### Fel grŵp

1. Mae eisiau i bob un ohonoch chi rannu yn fyr beth rydych chi wedi'i ddysgu o'r sesiwn hwn
2. Dywedwch sut mae'r sesiwn hwn wedi gwneud i chi deimlo

## Gweddi a Pharatoi

1. Cynigiwch waith y sesiwn i Dduw mewn gweddi
2. Cynlluniwch eich paratoad ar gyfer Sesiwn 2

## Project 2



### As a group

1. Consider the following statements about groups:  
A group is potentially more capable, more creative, more innovative, more effective and better informed than the best individual it contains  
Listening to each other, respecting each other's views and taking time to understand are more important than everybody agreeing with each other  
Everyone has a contribution to make to the life of the group and to the development of new possibilities, activities and goals.

2. Give your opinion on each statement in turn

Create your own list of statements about groups that can form the 'ground rules' for your work together. You can use any or all of the statements above or create your own accordingly

## Reflection

### As a group

1. Each share briefly what you have learned from this session
2. Say how this session has made you feel

## Prayer and Preparation

1. Offer the session's work to God in prayer
2. Plan your preparation for Session 2